**EISTEDDFOD YR URDD SIR GAERFYRDDIN 2023**

**Rhif 75 – Unawd Cerdd Dant Bl. 2 ac iau**
Tyfu'n Hen - Catrin Gwyn
Cainc: Elliw – Nan Elis (122) – Tant i'r Plant, Gwasg Gwynedd

# Tyfu'n Hen

A wyddoch chi fod plantos
Yn gorfod tyfu'n hen,
Yn gorfod gweithio'n galed
A gweithio gyda gwên?!

Mae rhai am fynd i'r heddlu,
A rhai am dorri coed,
Mae rhai am fod yn feddyg
Neu seren byd pêl droed.

Ond beirniad fyddaf innau,
Un enwog mawr o fri;
Pwy gaiff y wobr gyntaf?
Neb mwy, neb llai na fi!!

**Catrin Gwyn**